



Energy Local

Canlyniadau Arolwg Bethesda


Anfonwyd arolwg i'r aelodau Cyd Ynni sydd ar dariff Cyd Ynni i gasglu ryw ychydig o wybodaeth amdanoch chi, er mwyn deall pam wnaethoch chi ymuno â'r cynllun a sut mae'r cynllun wedi mynd i chi hyd yn hyn. Diolch i bawb a atebodd i'r holiadur. Cawsom ni 35 holiadur yn ôl – ychydig dros draean y rhai sydd ar y tariff. A basen ni'n hoffi anfon arolwg arall mewn tua blwyddyn i weld sut mae'r canlyniadau wedi newid.

Rydym ni hefyd wedi edrych faint o bŵer hydro a ddefnyddwyd, i weld faint o arian mae pobl wedi arbed.

Dyma rai o'r prif gasgliadau. Bydd rhai o'r cwestiynau yn fwy diddorol flwyddyn nesaf pan fydd hi'n bosibl inni weld os bydd yr atebion wedi newid. Rydym ni hefyd wedi casglu eich sylwadau ac awgrymiadau ac yn mynd i basio nhw ymlaen at Co-operative Energy.

1. **Oed** yr aelodau


O'r rhai a atebodd i'r arolwg, doedd neb dan 30 oed, ond atebodd 12 o deuluoedd. Roedd oedran yr aelodau yn cynrychioli'r ystod oedran i gyd.



2. Incwm yr aelodau


Oherwydd bod ganddyn nhw mesuryddion talu ymlaen llaw, doedd lawer o bobl sy'n ennill incwm isel ddim yn gallu cymryd rhan yn y cynllun peilot. Ar y cyfan, mae gynnon ni aelodau ar draws yr ystod incwm i gyd. Basen ni'n licio sicrhau yn y dyfodol bod y sawl sydd dan dlodi tanwydd yn medru cymryd rhan os ydyn nhw isio.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd yn berchnogion ar eu tai, neu roedd ganddynt forgais. Gobeithio y gallwn gynnwys tenantiaid mewn tai cymdeithasol yn y dyfodol hefyd os ydyn nhw isio cymryd rhan.



3. Awydd i leihau biliau trydan


Mae'n glir bod y rhan fwyaf o bobl wedi meddwl am leihau eu biliau trydan yn y fwyddyn ddiwethaf.



4. Rheswm i gymryd rhan yng nghynllun Cyd Ynni


Gofynnwyd pam oedd pobl isio cymryd rhan yn y cynllun. Rhoddwyd graddfa o 1 i 6 i bob ateb, gyda 6 y mwyaf pwysig. Gwelir o'r atebion mai'r ffaith ei fod yn brosiect lleol sy'n dda i'r ardal lleol oedd y rhesymau pwysicaf.

ôr



5. Ochr gymdeithasol y cynllun

Agwedd arall o'r awydd i gefnogi prosiect lleol yw ein bod ni'n gobeithio y byddai'n ffordd i gyfarfod pobl newydd. Mae'n ymddangos bod hyn yn wir i'r rhan fwyaf o bobl a atebodd. Gobeithio hefyd y bydd mwy o gymdeithasu a chyfarfod pobl yn digwydd mewn mwy o ddigwyddiadau dyfodol!




6. Gwybodaeth am y cynllun

Gofynnwyd i chi roi sgôr inni o 1 i 6 am pa mor eglur oedd y wybodaeth gawsoch chi am y Clwb Cyd Ynni ac am newid amser defnyddio trydan. Wnaethon ni hefyd ofyn i chi sgorio pa mor debygol fysech chi i argymhell Energy Local i gymunedau eraill.

Cawsom sgôr dda am y wybodaeth (roedd sgôr 6 yn golygu clir iawn) ond rydym yn awyddus i wella ac yn gweithio tuag at hynny. Bydd fersiwn newydd o'r dangosfwrdd ar gael yn fuan, ac rydym yn ceisio ymateb i sylwadau penodol.

Rydym yn falch bod llawer ohonoch chi am argymhell Energy Local i eraill, ond nid yw hyn yn ddigon. Rydym yn gwybod bod yna broblemau efo'r biliau sydd angen eu datrys.

Gwybodaeth am y cynllun (sgôr cyfartaledd o'r holl atebion)



7. Rhai canlyniadau am arbedion drwy ddefnyddio pŵer hydro lleol

Rydym ni wedi edrych ar faint o'r trydan a ddefnyddwyd oedd yn drydan hydro, ac wedyn faint o arian rydym ni wedi arbed o gymharu pris hydro ar 7c/kWh i dariff cyffredinol 13c/kWh.

Y cyfnod cyfan edrychwyd arno ydi Tachwedd 2016 – Gorffennaf 2017, ond nid oedd yr holl aelodau yn rhan o’r cynllun o’r dechrau. Dyma rai o’r canlyniadau ar gyfer y grŵp cyfan o 86 aelod fel yr oedd y data ym mis Gorffennaf 2017:

- Yr arbediad ar gyfartaledd yw 24% (h.y. un chwarter). A hynny er bod trydan hydro ddim ond yn cyfrif am hanner y trydan i gyd a ddefnyddwyd - 52%
- Yr arbediad lleiaf oedd 19%
- Yr arbediad mwyaf oedd 29% gan rywun lle oedd trydan hydro yn cyfrif am bron i 2/3 o’u trydan i gyd.

Roedd yr arbedion yn debyg i’r aelodau ar y tariff ym mis Tachwedd, ond maen nhw’n amrywio’n sylweddol o fis i fis. Er enghraifft, nid oedd llawer o bŵer hydro ar gael ym mis Mai, felly roedd yr arbedion yn llai.